

# Y Weithdrefn Gwyno

---

Ein dymuniad yw y byddwch yn cael ymweliad cynhyrchiol a phleserus ag adeilad a gwefan yr Archifau Gwladol. Rydym yn ymrwymedig i ddarparu i chi wasanaeth o'r safon uchaf posibl o fewn ein gallu. Os bydd pethau yn mynd o chwith, hoffem eich helpu'n syth bin, felly gofynnwn i chi ddweud wrthym pan fydd problem yn codi.

Mae ein [Polisi tynnu o'r wefan](#) yn nodi'r amgylchiadau lle y bydd yr Archifau Gwladol yn tynnu deunyddiau oddi ar eu gwefannau.

---

## Sut i wneud cwyn

Os ydych am gwyno am unrhyw un o'n gwasanaethau, siaradwch ag aelod o'r staff a fydd yn ceisio datrys pethau i chi'n uniongyrchol, neu'n eich rhoi mewn cysylltiad â rhywun a all helpu.

Neu, gallwch gwblhau ein [Ffurflen Rhoi'ch Barn](#) neu ein e-bostio ar [yourviews@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:yourviews@nationalarchives.gsi.gov.uk), neu gallwch ein ffonio ar +44 (0) 20 8392 5363 a siarad â'n Rheolwr Cwynion.

Gallwch hefyd ysgrifennu at ein Rheolwr Cwynion yn y cyfeiriad isod:

The Quality Manager  
The National Archives  
Kew, Richmond  
Surrey TW9 4DU

Mae'r polisi isod yn darparu manylion llawn ynglŷn â sut rydym yn ymdrin â sylwadau a chwynion.

[Polisi ymdrin â sylwadau a chwynion](#) (PDF, 0.11Mb)

## Adolygiad allanol

Os, ar ôl dilyn holl gamau'r system gwyno fewnol, rydych yn dal yn anfodlon, cewch wneud cais i'r Adolygydd Cwynion Annibynnol (ACA), Mrs Jodi Berg. Mae'r ACA yn hollol annibynnol ar yr Archifau Gwladol a bydd yn sicrhau tegwch a didueddrwydd wrth ymchwilio i'ch cwyn.

Dylid sylwi na chaiff yr ACA adolygu achosion sy'n ymwneud â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data.

The Independent Complaints Reviewer  
5th Floor  
1 Victoria Street

Llundain, SW1H 0ET

Rhif ffôn: +44 (0) 20 7930 0749

Rhif ffacs: +44 (0) 20 7321 0406

E-bost: [enquiries@icrev.org.uk](mailto:enquiries@icrev.org.uk)

[icrev.org.uk/](http://icrev.org.uk/)

Os yw'ch cwyn am gais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac rydych yn dal yn anfodlon ar ôl dilyn holl gamau'r system gwyno fewnol, dylech gysylltu â:

The Information Commissioner  
Wycliff House  
Water Lane

Wilmslow  
Cheshire, SK9 5AF  
Rhif ffôn: +44 (0)1625 545745  
[ico.org.uk](http://ico.org.uk)

## Adolygiad gan yr Ombwdsmon

Os byddwch yn dal yn anfodlon â chanlyniad adolygiad yr ACA, cewch ofyn i'ch Aelod Seneddol roi'ch cwyn gerbron yr Ombwdsmon Seneddol sydd yn un o swyddogion Tŷ'r Cyffredin. Mae'r Ombwdsmon yn gwbl annibynnol ar y llywodraeth.

Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn oddi wrth:

The Parliamentary and Health Service Ombudsman  
Millbank Tower  
Millbank  
Llundain SW1P 4QP  
Rhif ffôn: +44 (0)845 015 4033  
Rhif ffacs: +44 (0)20 7217 4000

E-bost: [phso.enquiries@ombudsman.org.uk](mailto:phso.enquiries@ombudsman.org.uk)  
[ombudsman.org.uk](http://ombudsman.org.uk)

Nid yw'r ddarpariaeth o broses annibynnol i adolygu cwynion yn effeithio ar eich hawl i geisio cael yr Ombwdsmon i adolygu'ch cwyn ar unrhyw adeg.

## Gwybodaeth bellach

Asiantaeth Weithredol yw'r Archifau Gwladol, sy'n gweithredu fel adran ar wahân o dan y Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Y Prif Weithredwr yw:

Jeff James  
The National Archives  
Kew, Richmond  
Surrey, TW9 4DU

Y gweinidog sy'n gyfrifol am yr Archifau Gwladol yw:

Secretary of State for Culture, Media & Sport  
100 Parliament Street  
Llundain, SW1A 2BQ